

WADE-EVANS, ARTHUR WADE (ARTHUR WADE EVANS, 1875-1964), offeiriad a hanesydd

Enw: Arthur Wade Wade-evans
Dyddiad geni: 1875
Dyddiad marw: 1964
Priod: Florence May Wade-Evans (née Dixon)
Rhiant: Elizabeth Evans (née Wade)
Rhiant: Titus Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: offeiriad a hanesydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant
Awduron: Mary Auronwy James, Brynley Francis Roberts

Ganwyd 31 Awst 1875 yn Hill House, Abergwaun, Penfro, yn fab i Titus Evans, capten llong, ac Elizabeth (ganwyd Wade) ei wraig. Aeth i ysgol ramadeg Hwlfordd a graddiodd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen (1893-96) cyn mynd yn offeiriad a'i ordeinio yn ddiakon yn Eglwys Gadeiriol S. Paul yn 1898. Ar 2 Medi 1899 cymerodd Wade-Evans yn gyfenw ac yn fuan wedyn priododd, 12 Hydref 1899, yn Eglwys S. George, Hanover Square, Llundain, â Florence May Dixon (bu farw 16 Ionawr 1953). Bu iddynt ddwy ferch. Ar ôl bod yn gurad yn Ealing, Oakley Square, Paddington Green, Caerdydd, English Bicknor a Welsh Bicknor (1898-1909), daeth yn ficer France Lynch (1909-26). Yn ystod y cyfnod hwn ymgyrchodd dros ddatgysylltiad yr Eglwys yng Nghymru. Bu'n ficer Pottersbury ynghyd â Furtho a Yardley Gobion (1926-32), ac yn olaf yn rheithor Wrabness (1932-57) cyn ymddeol i Frinton-on-sea, Essex, lle y bu farw 4 Ionawr 1964.

Yr oedd yn awdur toreithiog. Cyhoeddwyd erthyglau a llythyron niferus o'i eiddo yn *Notes and queries*, *Celtic Review*, *Y Beirniad*, *Guardian*, *Western Mail*, *South Wales News*, a llawer o gylchgronau a newyddiaduron eraill. Ysgrifennai ar bynciau amrywiol iawn, yn eu plith dafodiaith Abergwaun, materion hynafiaethol, a llestri arian eglwysig, ond fel hanesydd Prydain gynnar y gwnaeth ei gyfraniad pennaf. Credai fod yr hyn a ddysgid gan haneswyr cydnabyddedig ei gyfnod am y goncwest Sacsonaidd a'r modd y gyrrwyd y Brytaniaid ar ffo i'r gorllewin - Cymru a Chernyw - yn anghywir ac yn seiliedig ar gamddeall natur y testun *de excidio Britanniae* gan [Gildas \(Bywg., 259\)](#). Aeth ati i archwilio a chyfieithu'r dogfennau a thestunau hanes cynnar ei hun mewn ymgais i gynnal ei ddamcaniaeth, gan gyhoeddi, yn fwyaf arbennig, *Nennius's 'History of the Britons'* (1938), *Coll Prydain* (1950), a'r esboniad llawnaf o'i ddaliadau *The emergence of England and Wales* (1956, 1959). Gwnaeth lawer o waith ar hanes yr eglwys Geltaidd, *Welsh Christian origins* (1934), *Parochiale Wallicanum* (1911), rhestr ddefnyddiol o eglwysi a chapeli Cymru, ac ar fucheddau'r saint mewn erthyglau yn *Y Cymmrodor* ac *Archaeologia Cambrensis*. Cafwyd ganddo ddadansoddiad llawn a chyfieithiad o destun Lladin buchedd [Dewi](#) yn *Life of St. David* (1923) a chyhoeddodd nifer o destunau Lladin a Chymraeg ynghyd â chyfieithiadau Saesneg (a feirniadwyd yn llym mewn rhai adolygiadau) yn *Vitae sanctorum Britanniae et genealogiae* (1944). Y mae ei *Welsh mediaeval law* (1909) yn dal yn destun da o Lyfr Cyfnerth, a chyfrannodd erthygl ar gyfraith Hywel i *Encyclopaedia Britannica* (1929). Daliodd Wade-Evans at ei ddamcaniaethau anunionged a dadleuai'n fedrus drostynt gydol ei fywyd. Yr oedd yn awdurdod cydnabyddedig ar emynyddiaeth Gymraeg a Saesneg, ac y mae ei lawysgrif o gyfrol arfaethedig o emynau, 'Proper hymns for the Christian year', yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ynghyd â'i lawysgrifau eraill a chyfrolau o'i lyfrgell gyda'i sylwadau ar ymyl y ddalen.

JOHN THOMAS EVANS ('Tomos ap Titus', 1 Awst 1869-10 Mai 1940 rheithor

Brawd h n iddo, a addysgwyd yn Llanymddyfri, Coleg Diwinyddol Llundain a Choleg S. Ioan, Caergrawnt, yn rheithor Stow-on-the-Wold (1899-1939) a daeth yn adnabyddus am ei wyth cyfrol ar lestri arian eglwysi Cymru a Lloegr. Cedwir nifer o'i lawysgrifau yntau yn LIGC.

Awduron

Dr Mary Auronwy James

Dr Brynley Francis Roberts

Ffynonellau

Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price

Archaeologia Cambrensis, 1964, 169-70

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1965, 257-271

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [A. W. Wade-Evans](#)

Delweddau

LIGC: [J. T. Evans rector of Stow-on-the-Wold, Glos](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [120786077](#)

Wikidata: [Q4800586](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

